*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Kate Spence - Gwasanaethau Democrataidd (07747485566)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 24AIN CHWEFROR, 2022** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 22 CHWEFROR 2022, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. **COFNODION 13.01.22**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022 yn rhai cywir.

**5 - 12**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

5. **CAIS RHIF: 21/1081**

Troi'r garej ddwbl bresennol wrth y fynedfa i'r cytiau cŵn yn dderbynfa, newid cynllun y maes parcio presennol (Derbyniwyd yr Adroddiad Ystlumod ar 7/1/22), **Cytiau Cŵn Cynllan Lodge, Heol Llanhari, Llanhari, Pont-y-clun.**

**13 - 22**

6. **CAIS RHIF: 21/1095**

Cais am faterion wedi'u cadw'n ôl yn unol ag amod 9 o 19/0380/15 ar gyfer Cam 4 – dymchwel pont bresennol y rheilffordd ac adeiladu pont newydd gan gynnwys lifftiau, **Gorsaf Drenau Ffynnon Taf, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, Caerdydd.**

**23 - 34**

7. **CAIS RHIF: 21/1456**

Annedd â thair ystafell wely, **Tir ger 2 Heol Cas-gwent, Cwm-parc, Treorci.**

**35 - 46**

8. **CAIS RHIF: 21/1474**

Adeiladu uned ddiwydiannol ysgafn (Dosbarth Defnydd B1) (Derbyniwyd Asesiad Risg Mwyngloddio Glo (CMRA) ar 07/12/2021), **Uned G J M Upholstery Ltd, Uned 35, Ystad Ddiwydiannol Ynys-wen, Ynys-wen, Treherbert, Treorci.**

**47 - 56**

9. **CAIS RHIF: 21/1475**

Newid defnydd garej/swyddfa gymeradwy i lety gwyliau â 2 ystafell wely gyda newidiadau, **Fferm Gwrangon Isaf, Cwm Isaac, Rhigos, Aberdâr.**

**57 - 68**

10. **CAIS RHIF: 21/1498**

Newid defnydd siop gardiau (Dosbarth A1) i siop gludfwyd (Dosbarth A3), **27B Stryd Rhydychen, Aberpennar.**

**69 - 78**

11. **CAIS RHIF: 21/1546**

Datblygiad defnydd cymysg (gan gynnwys dymchwel rhan o adeilad) sy'n cynnwys man masnachol (swyddfa a manwerthu) a datblygiad preswyl (adeilad 5 llawr sydd â 52 fflat, 7 ohonyn nhw ar gyfer cynllun anawsterau dysgu yr Awdurdod Lleol), man troi newydd, draenio, tirweddu, maes parcio, gwasanaethu, a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd yr Asesiad Risg Mwyngloddio Glo diweddaraf ar 15/12/21, yr Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol a'r Adroddiad Arolwg Ystlumod diweddaraf ar 28/01/22 a'r Asesiad Effaith Sŵn diweddaraf ar 01/02/22), **Hen Co-Operative, Stryd Dunraven, Tonypandy.**

**79 - 100**

12. **CAIS RHIF: 21/1574**

Datblygiad arfaethedig o unedau Dosbarth B2 a/neu Ddosbarth B8, mynediad, maes parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig **Plot F, Dolydd Felindre, Parc Technoleg Pencoed, Llanharan, Pen-y-bont ar Ogwr.**

**101 - 116**

13. **CAIS RHIF: 22/0114**

Garej ddomestig ar wahân i gefn eiddo, **33 Stryd y Wern, Cwm Clydach, Tonypandy.**

**117 - 122**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

14. **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, am y cyfnod 31/01/2022 – 11/02/2022.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodaeth.
Gorfodi Penderfyniadau Dirprwyedig.

**123 - 136**

**15. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw eitemau sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**<u>Cylchrediad: -</u>**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd R Williams)

Y Cynghorydd J Barton, Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes,
Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd J Williams and Y Cynghorydd D Williams

Pennaeth Cynllunio
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd